OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1532 (Cy.150)

PRIFFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*13 Mehefin 2006*
Yn dod i rym - -	*Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 75 a 104(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol o ran Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 2 Hydref 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn:

ystyr "blwyddyn" ("year") yw blwyddyn sy'n cychwyn ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth;

ystyr "y Ddeddf" ("the Act") yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991;

ystyr "gwaith" ("works") yw gwaith stryd sy'n cynnwys cloddio neu adfer unrhyw ran o stryd;

mae i "pibell gyswllt" a "llinell gyswllt" yr ystyr sydd i "service pipe" a "service line" ym mharagraff 7(3) o Atodlen 4 i'r Ddeddf;

ystyr "ymgymerydd statudol" ("statutory undertaker") yw ymgymerydd sy'n gwneud gwaith stryd yn rhinwedd hawl statudol.

Ffioedd Arolygu

3.—(1) Rhaid i ymgymerydd dalu i'r awdurdod strydoedd ffi o £21 am bob tro y caiff gwaith ei arolygu am dâl gan yr awdurdod strydoedd.

(**1**) 1991 p.22. Nid yw'r diwygiad a wneir i adran 75 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 gan adran 58(2) o Deddf Rheoli Traffig 2004 wedi'i ddwyn i rym eto.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, yn ddarostyngedig i baragraff (6) isod, arolygu gwaith am dâl yw arolygu ar hap ddim llai na 10 y cant a dim mwy na 10.5 y cant o bob un o gyfnodau'r gwaith, a dim mwy na 30 y cant o gyfanswm nifer yr unedau arolygu cyfrifadwy mewn unrhyw flwyddyn.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, dyma beth yw uned arolygu:

(a) un darn a gloddir nad yw'n hirach na 200 metr o hyd; neu

(b) mwy nag un darn a gloddir ond nid mwy na phump ac, yn achos gwaith sy'n ymwneud â phibellau cyswllt a llinellau cyswllt, dim mwy na 10 darn a gloddir, ar yr amod ym mhob achos–

(i) bod pob darn a gloddir yn yr un stryd,

(ii) bod pob darn a gloddir yn rhan o'r un gwaith,

(iii) bod pob darn a gloddir yn cael ei gloddio o fewn cyfnod o 10 niwrnod gwaith,

(iv) bod pob darn a gloddir o fewn 500 metr i bob darn arall a gloddir; a

(v) nad yw hyd cyfan yr holl ddarnau a gloddir yn fwy na 200 metr gyda'i gilydd; neu

(c) yn achos cloddio darn sy'n fwy na 200 metr o hyd, pob darn a gloddir o 200 metr o hyd o fewn y darn hwnnw a gloddir neu falans y cyfryw ddarn.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, dyma'r cyfnodau gwaith:–

(a) y cyfnod y bydd y gwaith yn cael ei wneud, yn gorffen ar y diwrnod y cwblheir y gwaith adfer dros dro neu'n barhaol;

(b) y cyfnod o chwe mis yn cychwyn ar y diwrnod y cwblheir y gwaith adfer dros dro neu'n barhaol; ac

(c) y cyfnod o dri mis yn union cyn diwedd–

(i) yn achos cloddio'n ddyfnach nag 1.5 metr o fesur i dop yr offer a hynny dros ddarn o 5 metr neu fwy, 3 blynedd o ddyddiad gorffen y gwaith adfer parhaol,

(ii) mewn unrhyw achos arall, 2 flynedd o ddyddiad gorffen y gwaith adfer parhaol.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn, ac eithrio fel y darperir ym mharagraff (6) isod, nifer yr unedau arolygu cyfrifadwy mewn blwyddyn yw cyfartaledd nifer yr unedau arolygu ar gyfer yr ymgymerydd fesul blwyddyn wedi'i gyfrifo dros y tair blynedd sy'n dod yn syth o flaen y flwyddyn honno.

(6) Pan na fydd ymgymerydd eisoes wedi gwneud unrhyw waith stryd ar strydoedd y mae'r awdurdod sy'n cyflawni'r arolygiadau'n awdurdod strydoedd drostynt, nifer yr unedau arolygu cyfrifadwy ym mhob un o'r tair blynedd gyntaf yw nifer amcangyfrifedig yr unedau arolygu ar gyfer yr ymgymerydd yn y flwyddyn honno.

(7) At ddibenion gwneud yr amcangyfrif y cyfeirir ato ym mharagraff (6), rhaid i'r ymgymerydd, cyn cyflawni unrhyw waith mewn strydoedd y mae'r awdurdod sy'n cyflawni'r arolygiadau'n awdurdod strydoedd drostynt, ddarparu ar gyfer yr awdurdod strydoedd amcangyfrif o nifer yr unedau arolygu y mae'n arfaethu eu cynhyrchu y flwyddyn honno.

(8) Pan fydd ymgymerydd yn methu darparu amcangyfrif ar gyfer yr awdurdod strydoedd o fewn y cyfnod o amser y cyfeirir ato ym mharagraff (7) uchod, rhaid i'r awdurdod strydoedd gyflawni cymaint o arolygiadau ag y bydd yr awdurdod strydoedd o'r farn eu bod yn briodol a chodi ar yr ymgymerydd hwnnw ffi o £21 amdanynt, hyd oni fydd yr ymgymerydd yn darparu amcangyfrif ar gyfer yr awdurdod strydoedd, ac ar yr adeg honno bydd darpariaethau paragraff (9) isod yn gymwys.

(9) Unwaith y bydd yr ymgymerydd y cyfeirir ato ym mharagraff (8) uchod wedi darparu amcangyfrif ar gyfer yr awdurdod strydoedd, bydd y darpariaethau ym mharagraff (6) uchod yn gymwys, a bernir y bydd y tair blynedd gyntaf, y cyfeirir atynt ym mharagraff (6) yn cychwyn ar y dyddiad y daw'r amcangyfrif i law'r awdurdod strydoedd.